



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2011 Rhif 435 (Cy.63)**

**CAFFAEL TIR, CYMRU**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Darpariaethau Malltod)  
(Cymru) 2011

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau malltod yn adrannau 149 i 171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") yn galluogi personau sydd â buddiannau penodol mewn categorïau o dir, a bennir yn Atodlen 13 i'r Ddeddf (gan gynnwys tir y mae cynigion cynllunio a chynigion priffyrdd penodol yn effeithio arno), i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol gaffael eu buddiant yn y tir.

Un o'r buddiannau mewn tir sy'n gymwys i'w ddiogelu yw buddiant perchen-feddiannydd hereditament (sef hereditament perthnasol o fewn ystyr adran 64(4)(a) i (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988) pan na fydd gwerth blynyddol yr hereditament yn fwy nag unrhyw swm a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (adran 149(3)(a) o'r Ddeddf).

Mae'r pŵer i ragnodi'r swm hwnnw, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, wedi ei freinio bellach yng Ngweinidogion Cymru. Drwy arfer y pŵer hwnnw, mae Gweinidogion Cymru, drwy'r Gorchymyn hwn yn codi'r terfyn gwerth blynyddol o £29,200 i £34,800 er mwyn cymryd i ystyriaeth ailbriso'r ardrethi yn y flwyddyn 2010.

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2011 No. 435 (W.63)**

**ACQUISITION OF LAND,  
WALES**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

The Town and Country Planning  
(Blight Provisions) (Wales) Order  
2011

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

The blight notice provisions in sections 149 to 171 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") enable persons holding certain interests in categories of land, specified in Schedule 13 to the Act (including land affected by certain planning and highway proposals), to require the appropriate authority to acquire their interest in the land.

One of the interests in land which qualifies for protection is an interest of an owner-occupier of a hereditament (which means a relevant hereditament within the meaning of section 64(4)(a) to (c) of the Local Government Finance Act 1988) where the annual value of the hereditament does not exceed such amount as may be prescribed by the Secretary of State (section 149(3)(a) of the Act).

The power to prescribe that amount, so far as exercisable in relation to Wales, is now vested in the Welsh Ministers. In the exercise of that power, the Welsh Ministers, by this Order, increase the annual value limit from £29,200 to £34,800 to take account of the rating revaluation in the year 2010.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/367) (Cy.33) wedi ei ddirymu.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ynglŷn ag effaith y Gorchymyn hwn wedi cael ei baratoi a'i atodi i'r Memorandwm Esboniadol. Gellir cael copïau gan Lywodraeth y Cynulliad, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

This Order applies in relation to Wales.

The Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/367) (W.33) is revoked.

A Regulatory Impact Assessment of the effect of this Order has been prepared and is annexed to the Explanatory Memorandum. Copies may be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2011 Rhif 435 (Cy.63)**

**2011 No. 435 (W.63)**

**CAFFAEL TIR, CYMRU**

**ACQUISITION OF LAND,  
WALES**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Darpariaethau Malltod)  
(Cymru) 2011**

**The Town and Country Planning  
(Blight Provisions) (Wales) Order  
2011**

*Gwnaed* 15 Chwefror 2011

*Made* 15 February 2011

*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* 18 Chwefror 2011

*Laid before the National  
Assembly for Wales* 18 February 2011

*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2011

*Coming into force* 1 April 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 149(3)(a) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), ac a freiniwyd ynddynt hwy bellach(2), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 149(3)(a) and 333(7) of the Town and Country Planning Act 1990(1), and now vested in them(2), make the following Order:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

1.—(1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Ebrill 2011.

**Title, application and commencement**

1.—(1) The title of this Order is the Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2011.

(2) This Order applies in relation to Wales, and comes into force on 1 April 2011.

**Terfyn gwerth blynyddol**

2. £34,800 yw'r swm a ragnodir at ddibenion adran 149(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**Limit of annual value**

2. The amount prescribed for the purposes of section 149(3)(a) of the Town and Country Planning Act 1990 is £34,800.

---

(1) 1990 p.8.

(2) Trosglwyddwyd pwerau yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i amrywir gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

---

(1) 1990 c.8.

(2) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as varied by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253) (W.5). By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), functions of the National Assembly for Wales transferred to the Welsh Ministers.

## Dirymu

3. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005(1) wedi ei ddirymu.

## Revocation

3. The Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2005(1) is revoked.

*Ieuan Wyn Jones*

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport, one of the Welsh Ministers

15 Chwefror 2011

15 February 2011

---

© Hawlfraint y Goron 2011

---

© Crown copyright 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

(1) O.S. 2005/367 (Cy.33)

---

(1) S.I. 2005/367 (W.33)

£4.00

W841/03/11

ON